Minutes of the Mumbles Community Special Council Meeting – 3rd November at 6.30pm (Hybrid Meeting at the Ostreme Centre and via Teams)

Members Present: Cllrs Will Thomas (Chair), Martin O'Neill (Vice Chair Carrie Townsend Jones, Ian Scott, Rob Marshall, Phil Keeton, Richard Jarvis, Pam Erasmus, Hannah Williams and Laura Gilbert

Officers Present: Kerry Grabham – CO and Ceri Willcox – RFO.

Due to The Chair. Cllr Thomas participating on-line, the Vice-Chair, Cllr O'Neill assumed responsibility for chairing the meeting.

SC02611-01	**Apologies for Absence**: Cllrs - Dave Lewis, Sara Keeton, Helen Nelson, Tim Zhou, and Trevor Carr.
SC02611-02	**Declarations of Interest:** Cllrs Hannah Williams and Will Thomas declared personal interests as SCC Councillors in relation to any agenda items pertaining to SCC matters.
SC02611-03	**Public Participation** (In accordance with Section 48 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 and the Standing Orders of Mumbles Community Council. Members of the Public may make representations only on published agenda items. Members of the Public who wish to make representations must inform the Chief Officer at least 3 working days before the meeting. For further guidance, please refer to the Public Participation Policy on the Council's Website.) The Chair, Cllr O'Neill outlined the procedures for public participation. One member of the public was present at the commencement of the meeting who appeared remotely and did not participate in the meeting.

SCO2611-04	**Mumbles Traders' Christmas Lights Switch-On – Request for Financial Support** **To consider a request for a £5,000 contribution towards the Mumbles Traders' Christmas Lights Switch-On event.** Concern was raised by some Councillors that this application was circumventing the correct procedures for a grant application and that the application should have been considered by the Finance and Compliance Committee in the first instance. However, it was the consensus of the committee that whilst better collaboration should exist between Mumbles Traders and MCC, the significance of the event as one of the key dates in the 'Mumbles Calander' meant that the application should be progressed. The committee hoped that with the impending appointment of an events/marketing officer that future liaison between MCC and Mumbles Traders will be improved **RECOMMENDED** that a grant application for £5,000 to contribute towards the Mumbles Traders' Christmas Lights Switch-On event. **From Budget CTC4.**
SCO2611-05	**Exclusion of Press and Public** Following the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded from the following item of business due to the confidential nature of the business to be transacted. The Chair outlined that the remainder of the meeting needed to be in a 'closed session' due to the sensitive nature of information. **RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting. The recording of the meeting was suspended at 6.47pm and public participation ended.
SCO2611-06	**To consider the quotes received for tendering and project management support for Ostreme Together.** The Committee considered in depth both quotes provided. **RESOLVED** to appoint TC Consult.

SCO2611-07	**Underhill Hub Lighting – Revised Quotep** **To consider a revised quote for lighting at Underhill Hub, Mumbles, and to resolve whether to accept the revised quote.** The Committee considered the revised quote. **RESOLVED** to decline the revised quote and appoint M&M on the basis of their original quote and tender.

Meeting Finished at 7pm

Next meeting 10th November 2026

Cofnodion Cyfarfod Arbennig
Cyngor Cymuned y Mwmbwls – 3 Tachwedd am 6.30pm (cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams)

Aelodau yn bresennol: Y cynghorwyr Will Thomas (Cadeirydd), Martin O'Neill (Is-gadeirydd), Carrie Townsend Jones, Ian Scott, Rob Marshall, Phil Keeton, Richard Jarvis, Pam Erasmus, Hannah Williams a Laura Gilbert

Swyddogion yn bresennol: Kerry Grabham – Prif Swyddog a Ceri Willcox – Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Oherwydd bod y Cadeirydd yn bresennol ar-lein, cymerodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, gyfrifoldeb am gadeirio'r cyfarfod.

SC02611-01	**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y cynghorwyr - Dave Lewis, Sara Keeton, Helen Nelson, Tim Zhou, a Trevor Carr.
SC02611-02	**Datganiadau o fuddiant:** Cafwyd datganiadau o fuddiant personol gan y cynghorwyr Hannah Williams a Will Thomas fel Cynghorwyr Cyngor Dinas a Sir Abertawe mewn perthynas ag unrhyw eitemau ar yr agenda yn ymwneud â materion Cyngor Dinas a Sir Abertawe.
SC02611-03	**Cyfranogiad y cyhoedd** (Yn unol ag adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Rheolau Sefydlog Cyngor Cymuned y Mwmbwls. Dim ond ar eitemau agenda cyhoeddedig y gall aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau. Rhaid i aelodau'r cyhoedd sydd am wneud sylwadau hysbysu'r Prif Swyddog o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Am ganllawiau pellach, cyfeiriwch at Bolisi Cyfranogiad y Cyhoedd ar wefan y cyngor.) Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Neill, y gweithdrefnau ar gyfer annog y cyhoedd i gymryd rhan. Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod a ymddangosodd o bell ac ni chymerodd ran yn y cyfarfod.

SCO2611-04	**Cynnau Goleuadau Nadolig Masnachwyr y Mwmbwls – Cais am gymorth ariannol** **Ystyried cais am gyfraniad o £5,000 tuag at ddigwyddiad cynnau goleuadau Nadolig Masnachwyr y Mwmbwls.** Mynegwyd pryder gan rai cynghorwyr fod y cais hwn yn osgoi'r gweithdrefnau cywir ar gyfer cais am grant ac y dylai'r cais fod wedi cael ei ystyried yn y lle cyntaf gan y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd. Fodd bynnag, consensws y pwyllgor oedd, er y dylai gwell cydweithio fodoli rhwng Masnachwyr y Mwmbwls a Chyngor Cymuned y Mwmbwls, bod arwyddocâd y digwyddiad fel un o'r dyddiadau allweddol yng 'Nghalendr y Mwmbwls' yn golygu y dylid bwrw ymlaen â'r cais. Roedd y pwyllgor yn gobeithio, gyda phenodiad swyddog digwyddiadau / marchnata sydd ar ddod, y byddai'r cyswllt yn y dyfodol rhwng Cyngor Cymuned y Mwmbwls a Masnachwyr y Mwmbwls yn gwella **ARGYMHELLWYD** bod cais am £5,000 i gyfrannu at ddigwyddiad Cynnau Goleuadau Nadolig Masnachwyr y Mwmbwls yn cael ei gymeradwyo. **O gyllideb CTC4.**
SCO2611-05	**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd** Yn dilyn darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cafwyd cynnig i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod yr eitem fusnes hon oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod. Amlinellodd y cadeirydd fod angen cynnal gweddill y cyfarfod mewn 'sesiwn gaeedig' oherwydd natur sensitif yr wybodaeth. **PENDERFYNWYD:** Bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod. Cafodd recordiad y cyfarfod ei atal dros dro am 6.47pm a daeth cyfle'r cyhoedd i gymryd rhan i ben.
SCO2611-06	**Ystyried y dyfynbrisiau a ddaeth i law ar gyfer tendro a chymorth rheoli prosiectau ar gyfer Ostreme Gyda'n Gilydd.** Bu'r pwyllgor yn ystyried y ddau ddyfynbris a ddarparwyd yn fanwl. **PENDERFYNWYD** penodi TC Consult.

SCO2611-07	**Goleuadau Hyb Underhill – Dyfynbris diwygiedig** **Ystyried dyfynbris diwygiedig ar gyfer goleuadau yn Hyb Underhill, y Mwmbwls, a phenderfynu a ddylid derbyn y dyfynbris diwygiedig.** Bu'r pwyllgor yn ystyried y dyfynbris diwygiedig. **PENDERFYNWYD** gwrthod y dyfynbris diwygiedig a phenodi M&M ar sail eu dyfynbris a'u tendr gwreiddiol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7pm

Cyfarfod nesaf 10 Tachwedd 2026